OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 245

## Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012

## RHAN 4

Trwyddedu

### Gweithrediadau y mae trwydded gan Weinidogion Cymru yn ofynnol ar eu cyfer

**20.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol fod wedi ei drwyddedu i wneud hynny gan Weinidogion Cymru—

(a) marchnata hadau;

(b) pecynnu, selio neu labelu hadau;

(c) ailbecynnu, ailselio neu ail-labelu hadau;

(ch) paratoi cymysgeddau o hadau i'w marchnata;

(d) glanhau, trin neu brosesu mewn unrhyw ffordd arall hadau y bwriedir eu marchnata.

(2) Ond nid yw'r gofyniad am drwydded yn gymwys mewn perthynas â marchnata—

(a) pecynnau bach o hadau fel y'u diffinnir yn Atodlen 3;

(b) hadau nad ydynt wedi eu pecynnu; neu

(c) hadau, fel y'u tyfwyd, ar gyfer prosesu, ar yr amod y sicrheir hunaniaeth yr hadau o dan baragraff 2 o Atodlen 4.

### Trwyddedu arolygwyr cnydau, samplwyr hadau a gorsafoedd profi hadau

**21.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwyddedu arolygwyr cnydau, samplwyr hadau a gorsafoedd profi hadau i weithredu o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Cyn trwyddedu arolygydd cnydau neu samplwr hadau, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod y person yn gymwys i weithredu fel y cyfryw, ac wedi pasio arholiad a bennir gan Weinidogion Cymru.

(3) Cyn trwyddedu gorsaf brofi hadau, rhaid i Weinidogion Cymru fodloni eu hunain bod gan yr orsaf fangre ddigonol, personél cymwysedig a chyfarpar ar gyfer profi at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(4) Caiff arolygydd cnydau, samplwr hadau neu orsaf brofi hadau a drwyddedwyd godi ffioedd rhesymol am ymgymryd â swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn ond ni chânt ennill unrhyw elw preifat mewn cysylltiad â chyflawni'r cyfryw swyddogaethau.

### Darpariaethau cyffredinol ynglŷn â thrwyddedau

**22.**—(1) Rhaid i drwydded fod yn ysgrifenedig, a cheir ei gwneud yn ddarostyngedig i ba bynnag amodau a ystyrir yn briodol gan Weinidogion Cymru.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwydded drwy hysbysiad ysgrifenedig ar unrhyw adeg.